

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Bil Pysgodfeydd y DU 2019-21

Medi 2020

## Argymhelliad cyffredinol

Rydym yn argymhell y dylai'r Senedd roi ei chydsyniad i'r darpariaethau ym Mil Pysgodfeydd y DU 2019-21, ar yr amod ei bod yn fodlon ar ymateb y Gweinidog i'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, ac yn ein hadroddiad cyntaf ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

## 1. Cyflwyniad

1. Dyma ail adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ('y Pwyllgor') ar Fil Pysgodfeydd 2019-21 Llywodraeth y DU ('y Bil'). Cafodd ein hadroddiad cyntaf ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil ei gyhoeddi ym mis Mai 2020. Yn yr adroddiad hwnnw, rydym yn argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r darpariaethau yn y Bil, ar yr amod ei bod yn fodlon ar ymateb Llywodraeth Cymru i bob un o'n hargymhellion.

2. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein casgliadau o ran y canlynol:

- gwelliannau a wnaed i'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi (gweler Adran 2) sydd wedi aros yn y Bil yn dilyn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin, a
- materion a godwyd yn ein hadroddiad cyntaf nad aethpwyd i'r afael â hwy yn ddigonol eto.

3. Dylid darllen yr adroddiad hwn ar y cyd â'n hadroddiad cyntaf ar y Bil ac ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion yn yr adroddiad hwnnw.



4. Mae rhifau'r cymalau yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at y fersiwn o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi.

## 2.Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

5. Cyflwynodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ('y Gweinidog') y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ('y Memorandwm Atodol') ar gyfer y Bil ar 8 Gorffennaf 2020.

6. Ar 13 Gorffennaf 2020, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Atodol at y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w ystyried, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 24 Medi 2020.

### Ein dull craffu

7. Trafodwyd y Memorandwm Atodol yn ein cyfarfod ar 17 Medi 2020.

8. O ystyried yr amser cyfyngedig a oedd ar gael i ni drafod y Memorandwm Atodol a chyflwyno adroddiad arno, nid oeddem mewn sefyllfa i gymryd tystiolaeth lafar gan y Gweinidog. Yn lle hynny, fe wnaethom ni ysgrifennu at y Gweinidog a gofyn iddi ymateb yn ysgrifenedig i nifer o gwestiynau. Mae'r ohebiaeth rhyngom i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

### Newidiadau i'r Bil y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar eu cyfer

9. Mae'r Memorandwm Atodol yn nodi'r newidiadau i'r Bil a wnaed yn Nhŷ'r Arglwyddi y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar eu cyfer.

### Cymal 1 – Amcanion pysgodfeydd

---

10. Mae Cymal 1 yn diffinio set o amcanion pysgodfeydd sy'n gymwys ledled y DU gyfan. Gwnaed gwelliant i'r 'amcan cynaliadwyedd' sy'n golygu mai cynaliadwyedd yw'r prif amcan ac sy'n codi pwysigrwydd cymharol pryderon amgylcheddol o fewn yr amcan hwnnw.

### Cymal 18 – Gofyniad glanio cenedlaethol

---

11. Mae'r cymal newydd hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori ar 'ofyniad glanio cenedlaethol' a sefydlu'r gofyniad hwnnw i sicrhau bod isafswm canran y pysgod sy'n cael eu dal yn nyfroedd y Deyrnas Unedig gan

---

longau domestig a thramor yn cael eu glanio mewn porthladdoedd yn y Deyrnas Unedig, Ynys Manaw, Guernsey neu Jersey.

### Cymal 23 - Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota (Cymal 23 gynt)

---

**12.** Mae Cymal 24 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i bennu uchafswm nifer y pysgod môr y gall cychod pysgota Prydain eu dal ac uchafswm nifer y dyddiau y gall cychod pysgota Prydain eu treulio ar y môr.

**13.** Gwnaed gwelliant i Gymal 24 fel y bydd penderfyniad yn nodi'r flwyddyn neu'r cyfnod arall y mae'r penderfyniad yn gymwys iddo, yn hytrach na gwneud penderfyniadau mewn perthynas â blwyddyn galendr.

### Cymal 26 – Dosbarthu cyfleoedd pysgota (Cymal 25 gynt)

---

**14.** Mae Cymal 26 wedi'i ddiwygio er mwyn adleoli'r rheolau sy'n ymwneud â dosbarthu cwota o'r Rheoliad Polisi Pysgodfeydd Cyffredin i'r Bil.

### Cymal 27 – Cadw cyfleoedd pysgota yn Lloegr ar gyfer newydd-ddyfodiaid a chychod o dan 10 metr

---

**15.** Mae'r cymal newydd hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn gwneud penderfyniad mewn perthynas â chyfleoedd pysgota yn y DU, gadw isafswm o gyfleoedd pysgota yn Lloegr ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r sector ac ar gyfer cychod y mae eu hyd yn 10 metr neu lai. Wedi hynny, byddai'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried yr achos dros gynyddu'r cwota hwn bob blwyddyn a gosod datganiadau gerbron Senedd y DU ar ganlyniad yr ystyriaethau hynny.

### Cymal 48 – Gorfodaeth reoliadol a chynllun casglu data

---

**16.** Mae'r cymal newydd hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i fandadu'r defnydd o fonitro electronig o bell ar bob cwch pysgota â hyd o fwy na 10 metr sy'n pysgota yn nyfroedd y DU. Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi amserlen ar gyfer cyflwyno gofynion y rheoliadau, a chynlluniau i ymestyn y gofynion i bob cwch pysgota modur, gan gynnwys cychod o dan 10 metr.

### Gwelliannau i adlewyrchu newid enw'r Cynulliad

---

**17.** Gwnaed gwelliannau i Atodlen 1, Cymalau 11 a 41, Atodlen 8, a Chymalau 45, 50 a 51 i newid cyfeiriadau at 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' i 'Senedd Cymru'.

## Atodlen 5 - Gwerthu cyfleoedd pysgota yng Nghymru

---

Mae Atodlen 5 wedi cael ei diwygio i roi hyblygrwydd o ran faint o amser y gall Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer gwerthu hawliau i ddefnyddio cwota dal Cymru neu gwota ymdrech Cymru. Mae'r cyfeiriad at flwyddyn galendr wedi cael ei ddileu.

## Atodlen 10 – Rheoliad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin: Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

---

**18.** Mae Atodlen 10 yn ymgorffori'r deunydd a oedd gynt yn yr Atodlen honno ac yn gwneud diwygiadau pellach i Reoliadau yr UE a ddargedwir mewn perthynas ag Erthygl 2 o'r Rheoliadau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, hyblygrwydd cwota, a chynlluniau aml-flwyddyn. Mae esboniad manylach o'r diwygiadau hyn i'w weld ym mharagraffau 17 i 19, a pharagraff 21 o'r Memorandwm Atodol.

### Safbwynt Llywodraeth Cymru

**19.** Yn ôl y Memorandwm Atodol, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r newidiadau a wnaed i Gymalau 24 a 26, Atodlenni 5 a 10, a'r amrywiol welliannau i adlewyrchu newid enw'r Cynulliad.

**20.** Mewn perthynas â'r newidiadau a wnaed i Gymalau 1, 18, 27 a 48, mae'r Memorandwm Atodol yn esbonio y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried goblygiadau polisi a datganoli'r darpariaethau, gan gynnwys dadansoddiad manwl o'r goblygiadau ehangach i ddiwydiant a rhanddeiliaid. Mae'n ychwanegu:

“Os bydd y diwygiadau hyn yn parhau, rydym yn disgwyl, fan lleiaf, y bydd angen datrys materion drafftio, i egluro diben y polisi yn fwy ac i adlewyrchu'r setliad datganoli yn gliriach.”

**21.** Yn ei llythyr dilynol, nododd y Gweinidog safbwynt Llywodraeth Cymru ar y newidiadau a wnaed i Gymalau 1, 18, 27 a 48.

**22.** Esboniodd y Gweinidog, er bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi ysbryd y gwelliant i Gymal 1, fod y newid yn arwain at ansicrwydd cyfreithiol. Fe wnaeth hi fynegi pryder nad yw Gymalau 18 a 27 yn adlewyrchu'r setliad datganoli, nac yn torri ar ei draws, ac nad oes angen y darpariaethau ar gyfer Gweinidogion Cymru ym Mil y DU.

**23.** Wrth wneud sylw ar Gymal 27, dywedodd y Gweinidog:

“Roedd gennym bryderon uniongyrchol ynghylch sut y gellid dehongli'r ddarpariaeth hon, oherwydd ei bod yn bosibl y byddai'n effeithio ar “gronfa” cwota'r DU. Er ein bod yn nodi nad dyma'r bwriad, gallai effeithio ar ein cymhwysedd datganoledig. Felly, dim ond ar ôl i gyfleoedd pysgota gael eu dyrannu i bob gweinyddiaeth y dylai unrhyw glustnodi gael ei gynnal.”

**24.** Esboniodd y Gweinidog fod Llywodraeth y DU yn ceisio gwyrddroi'r newidiadau a wnaed i Gymalau 1, 18, 27 a 28 drwy eu diwygio yn ystod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin. Nid oedd yn ymddangos ei bod yn gwrthwynebu gwelliannau arfaethedig Llywodraeth y DU.

## Newidiadau i'r Bil sy'n gofyn am gydsyniad nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Memorandwm Atodol

**25.** Mae'r Pwyllgor wedi ceisio cyngor cyfreithiol gan Wasanaethau Cyfreithiol Senedd Cymru ar sawl newid a wnaed i'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi. Ym marn Gwasanaethau Cyfreithiol Senedd Cymru, mae angen cydsyniad ar sawl cymal ond nid yw'r rhain wedi cael eu cynnwys yn y Memorandwm Atodol.

### Cymal 2 - Datganiad pysgodfeydd ar y cyd

---

**26.** Mae Cymal 2 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau'r polisi pysgodfeydd (h.y. Gweinidogion Cymru) baratoi a chyhoeddi dogfen (datganiad pysgodfeydd ar y cyd) sy'n nodi, ymhlith pethau eraill, y polisiau ar gyfer cyflawni'r amcanion pysgodfeydd, neu gyfrannu at eu cyflawni.

**27.** Mewnosodwyd is-gymal (2) newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r polisiau a nodir yn y datganiad pysgodfeydd ar y cyd gynnwys y rhai sy'n ymwneud â dosbarthu cwotâu dal a chwotâu ymdrech, yn unol â Chymal 26, a hynny i'w defnyddio gan gychod pysgota.

### Cymal 28 - Dyletswyddau i sicrhau na eir dros y cyfleoedd pysgota

---

**28.** Mae Cymal 28 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol (sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru) arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â physgodfeydd er mwyn sicrhau, mewn unrhyw gyfnod, nad oes unrhyw bysgod môr yn cael eu dal gan gychod pysgota o Brydain dros gwota dal y cyfnod hwnnw, ac nad yw cychod pysgota o Brydain yn treulio mwy o ddiwrnodau ar y môr na'r cwota ymdrech ar gyfer y cyfnod hwnnw.

**29.** Mae is-gymal (2) newydd yn nodi, wrth benderfynu ar fynd dros gwota dal, mai dim ond bysgod môr y mae'n rhaid eu cyfrif yn erbyn y cwota dal o dan

Erthygl 15 o Reoliad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (y rhwymedigaeth glanio) neu unrhyw ddarpariaeth arall o ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir y dylid eu cyfrif.

**30.** Yn ogystal, mae is-gymal (11) yn egluro bod cyfeiriadau a wneir yn neddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir at gyfleoedd pysgota (sut bynnag y'u mynegir), mewn perthynas â chychod pysgota ym Mhrydain, yn gyfeiriadau at gwotâu dal a/neu gwotâu ymdrech (fel sy'n ofynnol yn y cyd-destun).

## Y datblygiadau diweddaraf

**31.** Cwblhaodd y Bil y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Medi 2020, lle cafodd ei ddiwygio i wyrddroi'r newidiadau a wnaed i Gymalau 1, 18, 27 a 48 yn Nhŷ'r Arglwyddi.

**32.** Gwnaed newidiadau ychwanegol i'r Bil yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, a fydd yn gofyn am gydsyniad y Senedd. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd Memorandwm Atodol arall wedi cael ei osod.

## Ein barn ni

Nodwn fod mwyafrif y newidiadau sylweddol a wnaed i'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi bellach wedi cael eu gwyrddroi.

Nid ydym yn gwrthwynebu gweddill y newidiadau yn y Memorandwm Atodol y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar eu cyfer.

Nodwn fod nifer o'r newidiadau a wnaed i'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi y mae angen cydsyniad ar eu cyfer heb gael eu cynnwys yn y Memorandwm Atodol. Hoffem i'r Gweinidog esbonio'r rheswm am hyn. Yn ogystal, rydym yn ceisio sicrwydd gan y Gweinidog y caiff y newidiadau hyn eu cynnwys yn y Memorandwm Atodol pellach y disgwylir iddo gael ei osod yn fuan.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog esbonio pam nad yw'r Memorandwm Atodol yn cynnwys y newidiadau i Gymalau 2 a 28 a wnaed yn Nhŷ'r Arglwyddi.

**Argymhelliad 2.** Rhaid i'r Gweinidog sicrhau bod y newidiadau i Gymalau 2 a 28 yn cael eu nodi mewn Memorandwm Atodol pellach.

## 3.Y pryderon sydd gennym o hyd

**33.** Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymateb yn gadarnhaol ar y cyfan i'n hadroddiad cyntaf, gan dderbyn 21 o'r 23 o argymhellion. Serch hynny, mae yna rai materion sy'n parhau i beri pryder i'r Pwyllgor hwn ac sydd angen eu hystyried ymhellach a/neu y mae angen cymryd camau pellach yn eu cylch.

### Cymal machlud

---

**34.** Yn ein hadroddiad cyntaf, roedd argymhelliad gennym y dylai'r Gweinidog geisio gwelliant i Fil 2019-21 i gynnwys cymal machlud mewn perthynas â'r darpariaethau sy'n ymwneud â Chymru yn unig (Argymhelliad 2). Gwrthododd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn ar y sail nad oes amserlen glir ar gyfer Bil Pysgodfeydd Cymru. Pwysleisiodd fod "angen inni sicrhau bod gennym yr adnoddau i reoli'r heriau sy'n wynebu ein diwydiant pysgodfeydd o ganlyniad i Brexit (a COVID-19 bellach)", a chadw'r pwerau hyn am gyhyd ag y bo angen.

**35.** Ychwanegodd Llywodraeth Cymru:

"...nid ydym am osod cymal machlud sy'n creu'r risg y collir pwerau allweddol i Gymru, drwy weithrediad awtomatig deddf. Rydym am gyflwyno deddfwriaeth yng Nghymru sydd wedi'i datblygu gan roi digon o amser i graffu arni a'i hystyried yn briodol. Nid wyf yn barod i geisio cymal machlud a allai roi diwydiant pysgota Cymru o dan anfantais o gymharu â gweddill y diwydiant yn y DU."

### Ein barn ni

Rydym yn siomedig bod y Gweinidog wedi dewis peidio â mynd ar drywydd gwelliant i'r Bil i gynnwys cymal machlud. Byddai gosod terfyn amser statudol ar y darpariaethau ar gyfer Cymru yn unig wedi rhoi sicrwydd pellach i'r Senedd eu bod yn rhai trosiannol, ac wedi dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno Bil Pysgodfeydd Cymru. Ar ben hynny, rydym yn parhau i fod yn bryderus, heb gymal machlud, na fydd fawr o ysgogiad, os o gwbl, i unrhyw Lywodraeth Cymru newydd gyflwyno Bil Pysgodfeydd Cymru. Yn lle hynny, gallai Llywodraeth newydd ddibynnu am gyfnod amhenodol ar ddarpariaethau ym Mil y DU y mae'r Senedd wedi cydsynio iddynt, yn rhannol o leiaf, ar y sail eu bod yn rhai trosiannol eu natur.

**Argymhelliad 3.** Mae'n bwysig, os yw'r Senedd yn cydsynio i'r darpariaethau hyn, ei bod yn cael cyfle i ailasesu eu rhinweddau eto ar adeg briodol. Dylai'r

Gweinidog ymrwmo i adrodd i'r Senedd bob dwy flynedd ar weithredu'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â Chymru yn unig hyd yr adeg y cyflwynir Bil Pysgodfeydd Cymru.

## Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas ag arfer pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota

---

**36.** Yn ein hadroddiad cyntaf, daethom i'r casgliad na ddylai'r Gweinidog gyflwyno'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil nes bod Aelodau'r Senedd wedi gallu ystyried y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas ag arfer pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota yn y DU.

**37.** Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwriadu i'r Aelodau gael y cyfle i adolygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â Chymal 24 cyn gwneud y penderfyniad cydsynio. Fodd bynnag, yn ei llythyr diweddaraf, dywedodd y Gweinidog fod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth “[yn] dal i gael ei ddatblygu ac na fydd felly yn barod cyn diwedd taith y Bil”. Ychwanegodd:

“Yn lle'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth... rwyf wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ofyn am gytundeb ar y materion allweddol y mae angen sicrwydd yn eu cylch er mwyn argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r Bil. Byddaf yn rhannu canlyniad y cais hwn â'r Pwyllgor cyn gynted ag y bo modd.”

## Ein barn ni

Drwy gydol ein gwaith craffu ar y Bil, ac ar Fil Pysgodfeydd 2017-19, roedd y Gweinidog yn mynnu bod y pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol a ddarperir yng Nghymal 24 yn parhau i fod yn llinell goch i Lywodraeth Cymru. Felly ni ellir disgwyl, ac ni ddylid disgwyl, i Aelodau'r Senedd ddod i benderfyniad ar gydsyniad deddfwriaethol nes bod y mater hwn wedi'i ddatrys yn llawn.

Er gwaethaf y sicrwydd blaenorol ganddi, nid yw'r Gweinidog mewn sefyllfa i roi cyfle i Aelodau o'r Senedd drafod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drafft cyn y penderfyniad cydsynio. Mae hyn yn siomedig. At hynny, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r Pwyllgor wedi cael manylion gan y Gweinidog am yr ymateb a gafwyd gan Lywodraeth y DU i'w chais am gytundeb ar faterion mewn perthynas ag arfer y pŵer.

**Argymhelliad 4.** Cyn y penderfyniad cydsynio, rhaid i'r Gweinidog fodloni'r Senedd bod y mater o arfer pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd



pysgota wedi cael ei ddatrys yn llawn. Yn benodol, rhaid i'r Gweinidog sicrhau bod manylion y cytundeb y daethpwyd iddo â Llywodraeth y DU ar faterion yn ymwneud ag arfer y pŵer ar gael i Aelodau o'r Senedd.

# Atodiad: Gohebiaeth rhwng y Cadeirydd a Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

Welsh Parliament

**Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee**

**Lesley Griffiths AS**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

23 Gorffennaf 2020

Annwyl Lesley,

## **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Pysgodfeydd**

Fel y gwyddoch, mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Pysgodfeydd ('y Bil') wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ('y Pwyllgor') i'w ystyried. Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 24 Medi 2020.



Mae'r terfyn amser hwn yn darparu cyfnod craffu o dair wythnos fusnes, sy'n golygu mai ychydig iawn o amser fydd gan y Pwyllgor i drafod y Memorandwm Atodol a chytuno ar ei adroddiad. O ran y broses o bennu terfynau amser ar gyfer cyflwyno adroddiadau, rydym yn cydnabod bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud hynny yng nghyd-destun amserlen y Bil yn Senedd y DU. Fodd bynnag, o gofio nad yw'r Bil eto wedi bod yn destun ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin, rydym yn siomedig bod Llywodraeth Cymru o'r farn nad oedd modd pennu cyfnod craffu mwy priodol.

At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyfaddef nad yw eto wedi cael cyfle i ystyried goblygiadau rhai o'r gwelliannau a wnaed i'r Bil yng nghyd-destun polisi a datganoli. Mewn achosion lle ceisir cydsyniad, nid yw'n afresymol disgwyl i Lywodraeth Cymru egluro i'r Senedd beth fydd goblygiadau'r darpariaethau dan sylw.



Felly, rydym am i chi ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch goblygiadau'r gwelliannau a wnaed i gymalau 1, 18, 27 a 48 yng nghyd-destun polisi a datganoli. Rydym yn dymuno cael y wybodaeth hon yn ysgrifenedig, a hynny **erbyn 3 Medi fan bellaf**.



**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 [SeneddNHAMG@senedd.cymru](mailto:SeneddNHAMG@senedd.cymru)  
 0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 [SeneddCCERA@senedd.wales](mailto:SeneddCCERA@senedd.wales)  
 0300 200 6565

Rydym hefyd am ichi ymateb i'r materion a ganlyn:

Mae nifer o'r diwygiadau i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir y darperir ar eu cyfer yn Atodlen 10 yn dileu'r cyfeiriadau a wneir o fewn y ddeddfwriaeth uniongyrchol honno at weinyddiaeth(au) pysgodfeydd, ac yn eu disodli â chyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol.

**1. A allwch chi egluro'r rhesymeg dros hyn? Yn benodol, pam mae'r swyddogaethau perthnasol yn cael eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol yn hytrach na'r gweinyddiaethau pysgodfeydd o fewn darpariaethau sy'n ymwneud â dilyn neu weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, sy'n fater datganoledig?**

Ar hyn o bryd, rhaid pennu cyfleoedd pysgota ym mhob achos er mwyn sicrhau y bydd llai na 5 y cant o debygolrwydd y bydd biomas y stoc silio yn disgyn yn is na'r terfyn perthnasol. Ar y sail hon, ni fyddai modd rhoi unrhyw gyfle pysgota pe bai'r stoc yn is na'r terfyn perthnasol.

Mae paragraffau 6(4) a 7(4) o Atodlen 10 yn diwygio, yn y drefn honno, Erthygl 4(6) o Reoliad (UE) 2018/973 (sefydlu cynllun amlflwydd ar gyfer stociau dyfnforol ym Môr y Gogledd) ac Erthygl 4(6) o Reoliad (UE) 2019/472 (sefydlu cynllun amlflwydd ar gyfer stociau sy'n cael eu pysgota yn Nyfroedd y Gorllewin a dyfroedd cyfagos). Effaith y diwygiadau hyn fydd cyfyngu'r broses o gymhwyso Erthygl 4(6) o'r ddau Reoliad (UE) dan sylw i amgylchiadau lle mae biomas y stoc silio yn uwch na'r terfyn perthnasol.

**2. A fyddai modd i chi egluro a fyddai hyn yn caniatáu i gyfleoedd pysgota gael eu rhoi lle mae'r stoc yn is na'r terfyn perthnasol?**

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,



**Mike Hedges AS**  
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





Ein cyf/Our ref: MA/LG/2661/20

Mike Hedges AS/MS  
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

[SeneddCCERA@senedd.wales](mailto:SeneddCCERA@senedd.wales)

3 Medi 2020

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Gorffennaf ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Pysgodfeydd.

### **Diweddariad i'r Pwyllgor ar oblygiadau'r diwygiadau gan Dŷ'r Arglwyddi i Gymalau 1, 18, 27 a 48 o ran polisi a datganoli**

Rydych wedi gofyn imi roi diweddariad ysgrifenedig ar oblygiadau'r diwygiadau hyn o ran polisi a datganoli. Fel y gwelwch, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno diwygiadau ar gyfer cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin i wrthdroi'r diwygiadau a wnaed yn ystod cam Adroddiad Tŷ'r Arglwyddi i Gymalau 1, 18, 27 a 48. Ceisiodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol, Victoria Prentis AS, fy marn ar y mater hwn, a dweud ei bod yn cefnogi ysbryd y diwygiadau, ond nad yw'r diwygiadau'n gadarn o safbwynt deddfwriaethol a chyfansoddiadol. Mae fy safbwynt i fel a ganlyn:

### **Cymal 1 – yr amcan cynaliadwyedd**

Mae'r diwygiad hwn yn peri ansicrwydd cyfreithiol. Yn fy ymateb i'r Gweinidog Prentis, gydnabŵm y pryderon a oedd wedi cael eu lleisio, a nodi y byddai angen mireinio'r

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddarpariaeth hon ymhellach er mwyn rhoi'r flaenoriaeth briodol i gynaliadwyedd amgylcheddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau pysgodfeydd cynaliadwy. Mae hyn yn ganolog i'n dull ar gyfer rheoli pysgodfeydd, sy'n cyd-fynd â'n dyletswyddau o dan ein deddfwriaeth flaenllaw ar gyfer Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016, i sicrhau datblygu cynaliadwy wrth inni gyflawni ein nodau llesiant, ac i reoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Bydd y polisiau yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn adlewyrchu'r dyletswyddau hyn a'n hymrwymiad cryf i sicrhau datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Yn hyn o beth, rwyf wedi pwysleisio wrth y Gweinidog Prentis ein bod yn cefnogi ysbryd y diwygiad, ac rwyf wedi gofyn iddi wneud hyn yn glir yn ystod cam y Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.

### **Cymal 18 – y gofyniad glanio cenedlaethol**

Fel y mae wedi'i ddrafftio nid yw'r diwygiad hwn yn adlewyrchu'r setliad datganoli, ac mae amodau trwydded sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob cwch o'r DU sefydlu cysylltiad economaidd â'r DU eisoes ar waith. Rydym yn bwriadu datblygu ymhellach bolisiau Cymru mewn perthynas â'r gofyniad am gyswllt economaidd, fel rhan o'r gwaith cyfannol o ddatblygu ein polisiau pysgodfeydd ar gyfer y dyfodol – yn ddarostyngedig i broses graffu'r Senedd. Felly, nid oes angen y ddarpariaeth hon ar gyfer Gweinidogion Cymru ym Mil y DU.

### **Cymal 48 – monitro electronig o bell**

Mae'r diwygiad hwn yn torri ar draws ein setliad datganoli, a chan ei fod yn fater datganoledig, Gweinidogion Cymru a ddylai benderfynu ar y dull priodol mewn perthynas â Chymru. Rydym yn bwriadu datblygu ymhellach bolisiau Cymru mewn perthynas â monitro electronig mewn ffordd sy'n adlewyrchu anghenion a chyd-destun fflyd Cymru. Felly, nid oes angen y ddarpariaeth hon ar gyfer Gweinidogion Cymru ym Mil y DU.

### **Cymal 27 – cwota newydd o ddyraniad Lloegr ar gyfer gweithredwyr newydd a chychod o dan ddeg metr**

Roedd gennym bryderon uniongyrchol ynghylch sut y gellid dehongli'r ddarpariaeth hon, oherwydd ei bod yn bosibl y byddai'n effeithio ar "gronfa" cwota'r DU. Er ein bod yn nodi nad dyma'r bwriad, gallai effeithio ar ein cymhwysedd datganoledig. Felly, dim ond ar ôl i gyfleoedd pysgota gael eu dyrannu i bob gweinyddiaeth y dylai unrhyw glustnodi gael ei gynnal.

Gobeithiaf fod yr esboniad hwn a'r diwygiadau a gyflwynwyd ar gyfer cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin yn rhoi'r eglurder rydych yn ei geisio.

### **Diwygiadau i Atodlen 10**

Rydych wedi gofyn dau gwestiwn am y diwygiadau yn Atodlen 10 i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, a newid cyfeiriadau at weinyddiaethau pysgodfeydd i'r Ysgrifennydd Gwladol. Rydych yn gofyn:

#### **A allwch egluro'r sail resymegol ar gyfer hyn, yn benodol pam mae'r swyddogaethau perthnasol yn cael eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol yn hytrach na'r gweinyddiaethau pysgodfeydd o fewn darpariaethau sy'n ymwneud â gweithredu neu arsylwi ar rwymedigaethau rhyngwladol, mater sydd wedi'i ddatganoli?**

Gweithiodd fy swyddogion yn agos gyda swyddogion Llywodraeth y DU, yn dilyn dadansoddiadau cyfreithiol o bob cyfeiriad yng nghyfraith yr UE a ddargedwir, i benderfynu pwy sy'n gyfrifol am y rolau, yn unol â'r setliad datganoli. Roedd y swyddogion yn glir iawn ynghylch manylion y setliad datganoli mewn perthynas â rhwymedigaethau rhyngwladol a'n rôl wrth eu gweithredu. Fy marn i yw bod y rhain wedi cael eu cymhwyso yn gywir mewn perthynas â'r setliad datganoli. Rwyf wedi rhoi tabl yn Atodiad 1 i egluro'r sail resymegol ar gyfer y diwygiadau a wnaed drwy Atodlen 10 i'r Bil.

Yn eich llythyr rydych yn cyfeirio at gyfleoedd pysgota a therfynau ar fiomas stoc silio, ac yn gofyn:

#### **A allwch gadarnhau a fyddai hyn yn galluogi rhoi cyfleoedd pysgota lle mae'r stoc o dan y terfyn perthnasol?**

Mae'r diwygiadau hyn yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i'r Cynlluniau Aml-flwyddyn presennol, gan gynnwys gwneud gweithredu'r darpariaethau allweddol ynddynt yn ddarostyngedig i amrywiad pan nodir "newid perthnasol mewn amgylchiadau" (mae hyn yn gyson â'r dull yn y Bil ar gyfer y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd a Chynlluniau Rheoli Pysgodfeydd). Er enghraifft, pe bai stoc o dan y terfyn perthnasol ond yn rhan o bysgodfa rhywogaethau cymysg, ni fyddai'n briodol gwrthod cyfle pysgota lle y byddai hyn i bob pwrpas yn cau'r holl bysgodfa neu, pe caniateid i'r ddarpariaeth barhau, yn arwain at farwolaethau ymhlith y stoc berthnasol beth bynnag. Mewn amgylchiadau o'r fath byddai'n briodol gosod cyfle sgil-ddalfa isafswm i osgoi tagu'r pysgodfeydd â stoc gysylltiedig.

Gobeithiaf fod y wybodaeth hon yn rhoi'r eglurder ychwanegol sydd ei angen arnoch ar gyfer eich ymateb i'r adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol. Hoffwn nodi mai'r dyddiad cau ar gyfer hwn yw 24 Medi.

### **Yr amserlen ar gyfer y Bil a'r camau nesaf**

Roeddwn am gloi drwy roi diweddariad ar yr amserlen ar gyfer y Bil. Cynhaliwyd Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 1 Medi a disgwylir i gam y Pwyllgor gael ei gynnal rhwng 8 a 17 Medi. Mae nifer o ddiwygiadau gan y llywodraeth wedi cael eu cyflwyno ar gyfer cam y Pwyllgor, a hoffwn dynnu eich sylw at y rheini. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gytuno ar y diwygiadau sy'n ymwneud â Chymru, a hoffwn roi cadarnhad cynnar fy mod i'n eu cefnogi.

Mae'r ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i threfnu ar gyfer 29 Medi, cyn cam Adroddiad Tŷ'r Cyffredin, yn unol â'n dull arferol o geisio sicrhau bod gan Senedd y DU amser i ystyried penderfyniad y Senedd ynghylch cydsyniad cyn i Fil gael ei basio. Bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn cael ei osod cyn gynted ag y bo modd.

Yn ogystal, hoffwn ddefnyddio'r cyfle hwn i drafod ymhellach rai o'r argymhellion yn eich adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

### **Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol**

#### Argymhelliad 6

Yn fy ymateb i'ch adroddiad ar y Memorandwm, gynigiais ysgrifennu atoch i amlinellu'r atebion a gafodd eu hystyried, a rôl Erthygl 33, yn dilyn eich argymhelliad ar y mater hwn.

Rydym wedi ystyried ymhellach a allai geiriad Erthygl 33 o Reoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, fel y'i diwygiwyd gan yr Offerynnau Statudol sy'n gysylltiedig â gadael yr UE a'r Bil Pysgodfeydd, leihau'r pryderon mewn perthynas â chynnwys toll ar gynnyrch cynaliadwy mwyaf.

Mae Erthygl 33 yn dweud (*Nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw*) 1) "Where stocks of common interest are also exploited by third countries, [...] the Secretary of State must make every effort to reach common arrangements for fishing of such stocks with a view to making the sustainable management possible" a 2) "endeavour

to establish bilateral or multilateral agreements with third countries for the joint management of stocks”

Mae hyn, wrth gwrs, yn rhoi sicrwydd y bydd negodiadau Llywodraeth y DU yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn, a'i bod wedi'i rhwymo i ymddwyn mewn modd cyfrifol wrth drafod stociau pysgod â Gwledydd Arfordirol. Fodd bynnag, nid yw'r geiriad yn gwarantu unrhyw ganlyniadau, ac yn wir, mae'n debyg na ellid ei ddefnyddio i wneud hynny (o ystyried y partion amryfal sy'n rhan o'r negodiadau hynny).

I gydnabod y pryderon a leisiwyd ynghylch cynnyrch cynaliadwy mwyaf, ac i roi rhagor o sicrwydd ynghylch dull y DU gyfan ar gyfer rheoli ein pysgodfeydd domestig mewn modd cynaliadwy, wrth gydnabod ansicrwydd y negodiadau rhyngwladol am bysgodfeydd, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno dull y cynllun rheoli pysgodfeydd sy'n cynnwys lefelau uwch o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae hyn yn ychwanegol at yr ymrwymiad cynnyrch cynaliadwy mwyaf a wnaed yn yr amcanion pysgodfeydd eu hunain. Rwy'n disgwyl i'r Cyddatganiad Pysgodfeydd a'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd bennu targedau pan fydd hynny'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r diwydiant pysgota ac ymchwilyr gwyddonol, yn ogystal â phartion eraill sydd â diddordeb, gan gynnwys DEFRA a'r gweinyddiaethau pysgodfeydd eraill, i sicrhau bod y ffordd mae ein pysgodfeydd yn cael eu rheoli'n seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael ac yn sicrhau bod moroedd Cymru yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy. Mae'r dull hwn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn cael ei adlewyrchu yn amcan tystiolaeth wyddonol Bil Pysgodfeydd y DU, Bil rydym yn ei gefnogi'n llawn.

#### Y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a chymal 24 (pennu cyfleoedd pysgota)

Dywedais hefyd y byddwn yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor ar y cynnydd sy'n cael ei wneud i gwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer y Fframwaith Pysgodfeydd, ac yn benodol y cynnydd mewn perthynas â chymal 24 (cymal 23 yn flaenorol). Mae fy swyddogion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgor sydd wrthi'n drafftio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (gan gynnwys y Mekanwaith Datrys Anghydfod ac ystyried y Concordat). .

Yn lle'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, sy'n dal i gael ei ddatblygu ac na fydd felly yn barod cyn diwedd taith y Bil, rwyf wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ofyn am gytundeb ar y materion allweddol y mae angen sicrwydd yn eu cylch er mwyn argymhell bod y Senedd yn



rhoi cydsyniad i'r Bil. Byddaf yn rhannu canlyniad y cais hwn â'r Pwyllgor cyn gynted ag y bo modd.

Rwyf wedi ysgrifennu mewn modd tebyg at Mike Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Cofion

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping 'L' and 'G'.

**Lesley Griffiths AS/MS**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

## Atodiad 1 Rhesymeg y diwygiadau a wnaed trwy Atodlen 10 y Bil

Cyfraith yr UE a ddargedwir (yn Atodlen 10)	Rhesymeg dros newid o “gweinyddu pysgodfeydd” i “Ysgrifennydd Gwladol”
<b>Rheoliad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Rheoliad (EU) rhif 1380/2013)</b>	
Erthygl 28, 29 a 33	<p>Mae Erthygl 28 yn nodi mai amcan polisi pysgodfeydd allanol y Deyrnas Unedig yw sicrhau bod adnoddau biolegol y môr ac amgylchedd y môr yn cael eu defnyddio, eu rheoli a'u gwarchod yn gynaliadwy trwy sicrhau bod cysylltiadau allanol y Deyrnas Unedig yn cael eu cynnal yn unol â'i hymrwymiaidau rhyngwladol ac amcanion ei pholisiau.</p> <p>Mae Erthygl 29 yn darparu y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gefnogi a chyfrannu mewn ffordd weithredol at weithgareddau sefydliadau rhyngwladol sy'n ymdrin â physgodfeydd gan gynnwys sefydliadau rheoli pysgodfeydd rhanbarthol.</p> <p>Mae Erthygl 33 yn darparu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgysylltu â thrydydd gwledydd gyda golwg ar sicrhau bod stociau sydd o ddi-ddordeb cyffredin i'r DU a'r trydydd gwledydd yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.</p> <p>O dan baragraff 10 (1) a (2) o Ran 1 o Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae cysylltiadau rhyngwladol yn fater wedi'i gadw yn ôl. Mae cysylltiadau rhyngwladol yn cynnwys cysylltiadau â gwledydd y tu allan i'r DU, â'r UE a'i sefydliadau ac â chyrrff rhyngwladol eraill.</p> <p>Er bod paragraff 10(3) yn cadarnhau nad yw cadw at ymrwymiaidau rhyngwladol yn rhan o'r mater a gedwir yn ôl a'i fod felly yn fater datganoledig, nid ydym o'r farn bod yr Erthyglau uchod yn gofyn am gadw at ymrwymiaidau rhyngwladol.</p> <p>Bydd Rheoliad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, trwy Ddeddf Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd 2018, yn dod yn rhan o lyfr statud y DU fel cyfraith wedi'i dargadw yr UE. Cafodd ei ddiwygio gan Reoliadau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/739). Gwnaeth Rheoliad 3 y Rheoliadau hynny sefydlu gweinyddiaethau pysgodfeydd y DU a phennu'u cylchoedd gwaith, hynny i ddelio ag unrhyw ddeddfwriaeth UE perthnasol a gaiff ei dargadw sy'n ymwneud â'r polisi pysgodfeydd cyffredin. Gwnaeth Rheoliad 3 ddiwygio hefyd erthyglau 28, 29 a 33 i drosglwyddo swyddogaethau o dan yr erthyglau hyn o sefydliadau'r UE i'r gweinyddiaethau pysgodfeydd.</p> <p>O ran Cymru, Gweinidogion Cymru yw'r weinyddiaeth pysgodfeydd gan y byddai'r rhwymedigaeth neu'r pŵer o dan sylw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd os bydd wedi'i gynnwys/chynnwys mewn Deddf gan y Senedd neu os y gallai Gweinidogion Cymru fod wedi'i (g)osod neu ei r(h)oi trwy arfer un o'u swyddogaethau yn union cyn y diwrnod ymadael. Os nad yw'r pŵer neu'r rhwymedigaeth yn perthyn i'r naill categori na'r llall, yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r weinyddiaeth sy'n gyfrifol am bysgodfeydd ac felly'n delio â'r mater hwnnw mewn perthynas â Chymru.</p> <p>Mae'r diwygiadau sydd eisoes wedi'u gwneud gan Reoliadau 2019 i'r Erthyglau hyn yn golygu bod y swyddogaethau o dan yr erthyglau hynny i bob pwrpas eisoes wedi'u trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru, yn unol â'r setliad datganoli. Barn swyddogion felly yw nad yw'r diwygiadau a wnaed trwy Atodlen 10 yn newid y sefyllfa hon, dim ond yn ei chrisialu.</p>
<b>Rheoliad (UE) 2018/973 – Cynllun Aml-flynyddol Môr y Gogledd</b>	

Erthygl 4, 6 & 13	<p>Mae Erthygl 4 yn ymdrin â thargedau marwolaethau pysgod trwy bysgota, ac fel y'i diwygiwyd, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn i ICES, neu gorff gwyddonol annibynnol tebyg arall sy'n cael ei gydnabod ar lefel ryngwladol, am ddata.</p> <p>Mae Erthygl 6 yn ymwneud â gofyn i ICES neu gorff gwyddonol annibynnol tebyg arall sy'n cael ei gydnabod ar lefel ryngwladol, am gyfeirnodau cadwraeth.</p> <p>Mae Erthygl 13 yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gysylltu â thrydydd gwledydd i sicrhau bod stociau sydd o ddi-ddordeb i'r DU a'r drydedd wlad yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy sy'n gyson â'r Rheoliad Sylfaenol.</p> <p>O dan baragraff 10 (1) a (2) o Ran 1 Atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae cysylltiadau rhyngwladol yn fater wedi'i gadw yn ôl. Mae cysylltiadau rhyngwladol yn cynnwys cysylltiadau â gwledydd y tu allan i'r DU, â'r UE a'i sefydliadau ac â chyrff rhyngwladol eraill.</p> <p>Er bod paragraff 10(3) yn cadarnhau nad yw cadw at ymrwymïadau rhyngwladol yn rhan o'r mater a gedwir yn ôl a'i fod felly yn fater datganoledig, nid ydym o'r farn bod yr Erthyglau uchod yn gofyn am gadw at ymrwymïadau rhyngwladol.</p> <p>Cafodd Erthyglau 4, 6 ac 13 y Rheoliad hwn eu diwygio gan Reoliad 25 o Reoliadau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Dyframaethu (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/753) i drosglwyddo swyddogaethau o dan yr erthyglau hyn o sefydliadau'r UE i'r gweinyddiaethau pysgodfeydd.</p> <p>O ran Cymru, Gweinidogion Cymru yw'r weinyddiaeth pysgodfeydd gan y byddai'r rhwymedigaeth neu'r pŵer o dan sylw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd os bydd wedi'i gynnwys/chynnwys mewn Deddf gan y Senedd neu os y gallai Gweinidogion Cymru fod wedi'i (g)osod neu ei r(h)oi trwy arfer un o'u swyddogaethau yn union cyn y diwrnod ymadael. Os nad yw'r pŵer neu'r rhwymedigaeth yn perthyn i'r naill categori na'r llall, yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r weinyddiaeth sy'n gyfrifol am bysgodfeydd ac felly'n delio â'r mater hwnnw mewn perthynas â Chymru.</p> <p>Mae'r diwygiadau sydd eisoes wedi'u gwneud gan Reoliadau 2019 i'r Erthyglau hyn yn golygu bod y swyddogaethau o dan yr erthyglau hynny i bob pwrpas eisoes wedi'u trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru, yn unol â'r setliad datganoli. Barn swyddogion felly yw nad yw'r diwygiadau a wnaed trwy Atodlen 10 yn newid y sefyllfa hon, dim ond yn ei chrisialu.</p>
-------------------	--

<b>Rheoliad (UE) 2019/472 Cynllun Aml-flynyddol Dyfroedd y Gorllewin</b>	
Erthygl 4, 7 & 15	<p>Mae Erthygl 4 yn ymdrin â thargedau marwolaethau pysgod trwy bysgota, ac fel y'i diwygiwyd, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn i ICES, neu gorff gwyddonol annibynnol tebyg arall sy'n cael ei gydnabod ar lefel ryngwladol, am ddata.</p> <p>Mae Erthygl 7 yn ymwneud â gofyn i ICES neu gorff gwyddonol annibynnol tebyg arall sy'n cael ei gydnabod ar lefel ryngwladol, am gyfeirnodau cadwraeth.</p> <p>Mae Erthygl 15 yn ymwneud â defnyddio stociau sydd o ddi-ddordeb cyffredin gan drydydd gwledydd. Mae'n darparu y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gysylltu â'r trydydd gwledydd hynny i sicrhau bod y stociau hynny'n cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy sy'n gyson â'r Rheoliad Sylfaenol.</p>

O dan baragraff 10 (1) a (2) o Ran 1 o Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae cysylltiadau rhyngwladol yn fater wedi'i gadw yn ôl. Mae cysylltiadau rhyngwladol yn cynnwys cysylltiadau â gwledydd y tu allan i'r DU, â'r UE a'i sefydliadau ac â chyrrff rhyngwladol eraill.

Er bod paragraff 10(3) yn cadarnhau nad yw cadw at ymrwymïadau rhyngwladol yn rhan o'r mater a gedwir yn ôl a'i fod felly yn fater datganoledig, nid ydym o'r farn bod yr Erthyglau uchod yn gofyn am gadw at ymrwymïadau rhyngwladol.

Bydd Rheoliad (UE) 2019/472, trwy Ddeddf Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd 2018, yn dod yn rhan o lyfr statud y DU fel cyfraith wedi'i dargadw yr UE. Cafodd ei ddiwygio gan Reoliadau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ac Anifeiliaid (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/1312). Gwnaeth Rheoliad 6 ddiwygio erthyglau 4, 7 a 15 i drosglwyddo swyddogaethau o dan yr erthyglau hyn o sefydliadau'r UE i'r gweinyddiaethau pysgodfeydd.

O ran Cymru, Gweinidogion Cymru yw'r weinyddiaeth pysgodfeydd gan y byddai'r rhwymedigaeth neu'r pŵer o dan sylw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd os bydd wedi'i gynnwys/chynnwys mewn Deddf gan y Senedd neu os y gallai Gweinidogion Cymru fod wedi'i (g)osod neu ei r(h)oi trwy arfer un o'u swyddogaethau yn union cyn y diwrnod ymadael. Os nad yw'r pŵer neu'r rhwymedigaeth yn perthyn i'r naill gategori na'r llall, yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r weinyddiaeth sy'n gyfrifol am bysgodfeydd ac felly'n delio â'r mater hwnnw mewn perthynas â Chymru.

Mae'r diwygiadau sydd eisoes wedi'u gwneud gan Reoliadau 2019 i'r Erthyglau hyn yn golygu bod y swyddogaethau o dan yr erthyglau hynny i bob pwrpas eisoes wedi'u trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru, yn unol â'r setliad datganoli. Barn swyddogion felly yw nad yw'r diwygiadau a wnaed trwy Atodlen 10 yn newid y sefyllfa hon, dim ond yn ei chrisialu.